Beibl i Blant

yn cyflwyno

Dafydd y Bugail Ifanc

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Lazarus

addaswyd gan: Ruth Klassen
Alastair Paterson
Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Amser maith yn ôl, pan oedd y Brenin Saul yn rheoli Israel, roedd bachgen o'r enw Dafydd yn helpu ei frodyr i ofalu am anifeiliaid eu tad.

Dafydd oedd y mab ieuengaf, ond roedd yn fachgen cryf a dewr oedd yn caru Duw ac yn ei drystio. Roedd yn byw yn nhref Bethlehem.

Un tro, daeth llew i ymosod ar y praidd a dwyn oen bach ar gyfer ei swper. Ymladddodd Dafydd gyda'r anifail, ei daro i lawr, ac achub yr oen o'i geg, gafael yn y llew gerfydd ei wddf a'i ladd. Roedd Dafydd yn siŵr fod Duw wedi ei helpu.


Roedd Samuel, proffwyd
Duw, yn dal yn drist bod
y Brenin Saul wedi methu
ufuddhau i Dduw.

Siaradodd Duw yn flin gyda Samuel a dweud, "Am faint wyt ti'n mynd i ddal i deimlo'n drist am Saul? Dos at Jesse. Dw i wedi dewis un o'i feibion e i fod yn frenin i mi." Jesse oedd tad Dafydd.

Roedd Samuel yn gwybod y byddai'r Brenin Saul eisiau ei ladd am chwilio am frenin newydd, ond fe wrandawodd ar Dduw.

Pan gyrhaeddodd Samuel, galwodd Jesse saith o'i feibion ato. A dywedodd Samuel wrth Jesse, "Dydy'r ARGLWYDD ddim wedi dewis yr un o'r rhain." Dim ond Dafydd, y lleiaf, oedd ar ôl. Roedd e allan gyda'r defaid. Wedi iddo gyrraedd dywedodd Duw, "Hwn ydy e. Eneinia fe â'r olew".

Draw yn y palas roedd ysbryd drwg yn poeni Saul. Roedd Ysbryd yr ARGLWYDD wedi ei adael.

Penderfynodd ei weision y gallai cerddoriaeth hyfryd wneud iddo deimlo'n well. Roedd un ohonyn nhw'n adnabod dyn ifanc oedd yn canu'r delyn yn dda. Pwy oedd hwnnw, meddyliwch chi? Ie – Dafydd.

Roedd cerddoriaeth Dafydd yn tawelu Saul a gwneud iddo deimlo'n well. Gofynnodd Saul i Jesse a fyddai Dafydd yn cael aros i fod yn was iddo. Pan fyddai Saul yn teimlo'n drist neu'n ofnus, byddai Dafydd yn canu'r delyn iddo ac yn ei helpu.

Ar ôl i Dafydd fynd adre, daeth y Philistiaid i ymladd yn erbyn byddin Saul. Roedd brodyr Dafydd yn filwyr ym myddin Saul. Dyma Jesse yn anfon Dafydd i wersyll ei frodyr gyda bwyd, ac i weld oedden nhw'n iawn.



Roedd CAWR o ddyn, Goliath, un o'r Philistiaid, yn codi ofn ar filwyr Israel.

"Dewiswch un dyn i ddod lawr yma i ymladd hefo fi!" gwaeddodd Goliath. "Os gall e fy lladd i, byddwn ni'n gaethweision i chi. Ond os gwna i ei ladd e yna chi fydd yn gaethweision i ni." Pan welodd milwyr Israel y cawr, dyma nhw'n rhedeg i ffwrdd. Roedd ganddyn nhw ofn go iawn.

Yna dywedodd Dafydd wrth Saul, "Does dim rhaid i neb ddigalonni; dw i'n barod i ymladd y Philistiad yna!" Roedd Saul am i Dafydd wisgo arfwisg a chario cleddyf. Ond yn lle hynny, cymerodd Dafydd ei ffon dafl a pum carreg lefn o'r sychnant.



Pan welodd Goliath fod Dafydd heb arfau, dyma fe'n chwerthin a rhuo, "Dw i am roi di'n fwyd i'r adar a'r anifeiliaid gwylltion!" Dyma Dafydd yn ei ateb e,

"Dw i'n dod yn dy erbyn di ar ran yr ARGLWYDD holl-bwerus! Heddiw bydd yr ARGLWYDD yn dy roi di yn fy llaw i...brwydr yr ARGLWYDD ydy hon."

Rhedodd Dafydd at Goliath. Wrth iddo redeg dyma fe'n hyrddio carreg gyda'i ffon dafl – gan daro Goliath ar ei dalcen. Syrthiodd i'r llawr.

Dyma Dafydd yn cymryd cleddyf mawr Goliath er mwyn torri ei ben i ffwrdd. Pan welodd y Philistiaid fod Goliath wedi marw, dyma nhw'n rhedeg i ffwrdd.



Doedd Dafydd ddim wedi adnabod Dafydd fel y bachgen oedd yn canu'r delyn iddo, Cafodd Dafydd ei wneud yn gapten y fyddin – ond wedyn aeth Saul yn genfigennus achos roedd y bobl yn canmol Dafydd. "Peth nesa, byddan nhw eisiau ei wneud e'n frenin!" Felly o hynny ymlaen roedd Saul yn cadw llygad ar Dafydd.



Dyma ysbryd drwg yn taro Saul eto, felly daeth Dafydd i ganu'r delyn iddo i'w dawelu. Taflodd Saul waywffon at Dafydd – digwyddodd hyn ddwywaith.





Ond llwyddodd Dafydd i ddianc. Roedd Saul yn ofni Dafydd am fod yr ARGLWYDD gyda Dafydd ond roedd wedi ei adael e.



Ond roedd Jonathan, mab Saul, yn caru Dafydd ac roedden nhw'n ffrindiau gorau. Rhoddodd rybudd i Dafydd, "Mae fy nhad, Saul, am dy ladd di." Er mwyn dianc, fe wnaeth gwraig Dafydd roi eilun-ddelw yn ei wely, a gollwng Dafydd i lawr o'r ffenestr yn ystod y nos. Pan ddaeth milwyr Saul yn y bore, roedd Dafydd wedi mynd.

Bu'n rhaid i Dafydd ffoi yn bell oddi wrth Saul. Ond cyn mynd, fe wnaeth y ddau ffrind gytundeb – fe wnaeth Jonathan a Dafydd addo y bydden nhw wastad yn helpu ei gilydd.

Roedd y ddau ffrind yn drist wrth iddyn nhw ddweud hwyl fawr wrth ei gilydd. Aeth Dafydd i chwilio am le diogel i fyw, er mwyn gwneud yn siŵr na fyddai milwyr Saul yn dod o hyd iddo.

Dafydd y Bugail Ifanc

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

1 Samuel 16-20

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16